PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Prifysgol Bangor

**COFNODION Y CYNGOR**

Mewn cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn y brifysgol ddydd Gwener, 30 Ebrill 2021.

**Presennol:**
Mrs Marian Wyn Jones (Cadeirydd), yr Athro Iwan Davies, Dr Myfanwy Davies, Mr Atul Devani, Mr Iwan Evans, Mr Eric Hepburn, Dr Griff Jones, Dr Karen Jones, Dr Llion Jones, Mr Marc Jones, Mr Kailesh Karavadra, Syr Paul Lambert, Mrs Alison Lea-Wilson, Ms Julie Perkins, Dr Ian Rees, yr Athro Gareth Roberts, yr Athro Oliver Turnbull, Mr Henry Williams, Mr Tudur Williams a Mrs Gwenan Hine (Ysgrifennydd).

**Ymddiheuriadau**:
Dr Lynne Williams.

**Yn bresennol hefyd:**
Yr Athro Nicky Callow, Mr Rob Eastwood, yr Athro Andrew Edwards, Mrs Tracy Hibbert, Dr Kevin Mundy, yr Athro Paul Spencer, Mrs Lorraine Westwood a Mr Lars Wiegand.

Roedd Mr M. Wilson, Pennaeth Cynllunio a Data Myfyrwyr, hefyd yn bresennol ar gyfer eitem 3844.

## 20.68 CROESO

Croesawyd Mr James Avison, Llywydd etholedig Undeb y Myfyrwyr, a Mr Mabon Dafydd, Llywydd etholedig UMCB i'r cyfarfod. Nodwyd y byddai Mr Avison a Mr Dafydd yn arsylwi cyfarfod y Cyngor, cyn ymuno fel aelodau yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

## 20.69 LLONGYFARCHIADAU

A. Ar dderbyn Cadair Athro er Anrhydedd:

**Yr Athro Alex Anstey**, MD, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Athro er Anrhydedd yn yr Ysgol Gwyddorau Iechyd

**Yr Athro Peter Lepping**, Seiciatrydd Ymgynghorol Cyswllt, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Athro er Anrhydedd yn yr Ysgol Gwyddorau Iechyd

**Yr Athro Horst-Michael Prasser**,
Athro Emeritws, Department of Mechanical and Process Engineering, Institute of Energy Technology, Zürich. Yr Athro Lyndon Edwards, Sefydliad y Dyfodol Niwclear, Coleg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianneg

**Yr Athro Lynda M Warren OBE**, cyn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Gwastraff Ymbelydrol (CoRWM). Athro er Anrhydedd yn Sefydliad y Dyfodol Niwclear, Coleg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianneg

Ar dderbyn Cadair Athro Gwadd:

**Yr Athro Dewi Lewis,** arbenigwr fferyllol ymbelydrol a gydnabyddir yn rhyngwladol. Cyfarwyddwr PHYSEGA Ltd ac Athro Gwadd, Sefydliad y Dyfodol Niwclear, Coleg Gwyddorau'r Amgylcheddol a Pheirianneg

B. Ar ran y Cyngor, llongyfarchodd y cadeirydd yr aelodau staff dan sylw.

## 20.70 MARWOLAETHAU

Cyfeiriodd y cadeirydd at farwolaethau'r canlynol yn ddiweddar:

**Mr Malcolm Swann**
Cyn Gyfarwyddwr Ystadau

**Mr Dai Lloyd Jones, MBE**,
Cyn aelod o Gyngor y Brifysgol

**Mr Richard Parry-Jones** cyn aelod o Gyngor y Brifysgol a Chymrawd er Anrhydedd y brifysgol.

**Ms Sara Anest Jones**,
Myfyrwraig yn yr Ysgol Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth.

**Mr Ray Footman**
Cyn Gadeirydd Bwrdd Ymgynghorol Cyn-fyfyrwyr, a Chyn-fyfyriwr y Flwyddyn Prifysgol Bangor 2017

Bu'r aelodau yn dawel er cof amdanynt.

## 20.71 DATGANIADAU BUDD

A. Atgoffwyd yr aelodau y dylent ddatgan unrhyw fudd personol, ariannol neu fanteisiol yn unrhyw fater a ystyrir yn y cyfarfod hwn cyn i'r mater hwnnw gael ei ystyried.

B. Cyhoeddodd yr Athro Gareth Roberts, a holl aelodau staff y brifysgol a oedd yn bresennol, ddiddordeb mewn perthynas ag eitem 20.77 ar yr agenda

## 20.72 CYNLLUN STRATEGOL DRAFFT

A. Hysbysodd yr Is-ganghellor y Cyngor fod y strategaeth ddrafft bellach wedi bod trwy'r broses ymgynghori ac ymgysylltu y cytunwyd arni yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor, a bod y Pwyllgor Gweithredu wedi ystyried yr adborth a gafwyd. Ar ôl ystyried yr

adborth a gafwyd, gwnaed diwygiadau i'r strategaeth ddrafft. Derbyniodd ac ystyriodd yr aelodau grynodeb o'r broses ymgynghori ac ymgysylltu, y prif feysydd adborth, a'r diwygiadau i'r strategaeth mewn ymateb i'r adborth hwn. Yn ogystal, rhoddodd Mr Wilson gyflwyniad byr i'r Cyngor yn amlinellu'r cynnydd hyd yn hyn, a'r camau nesaf arfaethedig

B. Diolchodd y cadeirydd, ar ran y Cyngor, i Mr Wilson am ei gyflwyniad defnyddiol a'i waith caled yn llunio'r ddogfen strategaeth. Nododd y Cyngor ddyfnder cyfraniad y staff, a diolchwyd i'r Pwyllgor Gweithredu gyfan am arwain ar y broses ymgynghori.

C. Yn dilyn trafodaeth, **cymeradwyodd** y Cyngor y Cynllun Strategol diwygiedig. Nodwyd y cynhelir lansiad ffurfiol y Cynllun Strategol yn agos at ddyddiad cyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf, a bydd y Cyngor hefyd yn clywed diweddariadau ar rai o'r is-strategaethau yn ystod y cyfarfod.

## 20.73 COFNODION

A. Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 12 Chwefror 2021.

B. Darparwyd cofnod gweithredu yn nodi cynnydd yr holl gamau gweithredu sydd heb eu cyflawni yn y Cyngor. Nododd y Cyngor yr adroddiadau cynnydd a'r camau gweithredu a gwblhawyd.

## 20.74 MATERION YR IS-GANGHELLOR

A. **Adroddiad gan y Pwyllgor Gweithredu**

Cyflwynodd yr Is-ganghellor yr adroddiad gan y Pwyllgor Gweithredu gan nodi'r eitemau canlynol yn benodol:

**Cyflwyno Cynnig Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW)**

Cafodd y Cyngor y wybodaeth ddiweddaraf am statws y cynnig HEIW a gyflwynwyd ychydig fisoedd yn ôl, a disgwylir am y canlyniad ym mis Mai. Atgoffwyd y Cyngor o bwysigrwydd y cynnig fel rhan o feddwl strategol ehangach y brifysgol am feddygaeth a phynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth a'r risg sylweddol pe na bai'r brifysgol yn llwyddiannus, fel yr amlinellwyd i'r aelodau yn y cyfarfod diwethaf. Darperir diweddariad pellach yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf.

**Diwrnodau Agored Rhithiol: Meddalwedd**

Mae'r Pwyllgor Gweithredu wedi cymeradwyo pecyn meddalwedd diwrnod agored rhithwir mwy soffistigedig a fydd yn fuddiol nid yn unig i'r diwrnodau agored rhithwir cyfredol, ond hefyd er mwyn parhau â diwrnodau agored rhithwir fel rhan o'r cynnig i ddarpar fyfyrwyr yn y dyfodol.

**Modelu Man Addysgu Canolog**

Nodwyd bod y Pwyllgor Gweithredu wedi derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ystadau a Champws ar fodelu man addysgu canolog. Oherwydd y pandemig, a'r angen o ganlyniad i edrych yn fwy cynhwysfawr ar le ar y campws, bu'r tîm Gwasanaethau Eiddo a Champws yn ganolog yn y gwaith o ddarparu lle ac roedd hyn wedi tynnu sylw at nifer o heriau. Mae'r Pwyllgor Gweithredu wedi nodi bod angen deall yn well y ffordd y caiff mannau addysgu a dysgu a reolir yn ganolog eu defnyddio a pha mor bwysig yw sicrhau y darperir profiad o'r radd flaenaf. Nodwyd y dylid ystyried gofynion y dyfodol mewn perthynas â ffyrdd mwy arloesol o addysgu, ochr yn ochr â buddsoddi mewn gwell cyfleusterau.

B. **Diweddariadau Eraill**

**Ymrwymiad i Ysgol Feddygol yng Ngogledd Cymru**

Adroddodd yr Is-ganghellor yr ymrwymiad i Ysgol Feddygol Gogledd Cymru gan brif bleidiau gwleidyddol Cymru fel rhan o'u maniffestos ar gyfer etholiadau'r Senedd.

**Cynllun Strategol: Is-strategaethau**

Hysbyswyd y Cyngor fod gwaith yn mynd rhagddo ar nifer o is-strategaethau ar hyn o bryd, gydag aelod perthnasol y Pwyllgor Gweithredu yn arwain fel y bo'n briodol. Bydd ymgynghoriadau â staff yn cael eu cynnal ym mis Mai, a bydd diweddariadau pellach yn dod i gyfarfod nesaf y Cyngor.

B. Diolchodd y cadeirydd i'r Is-ganghellor am ei ddiweddariad a mynegodd ei diolch i'r tîm gweithredu cyfan am eu harweinyddiaeth. Estynnwyd diolch y Cyngor cyfan hefyd i'r holl aelodau staff sy'n parhau i weithio'n galed i sicrhau bod myfyrwyr yn parhau i dderbyn addysg o ansawdd uchel a phrofiad cadarnhaol. Nododd y Cadeirydd y byddai sesiwn friffio anffurfiol gyda'r Is-Ganghellor cyn cyfarfod nesaf y Cyngor, i roi cyfle i aelodau dderbyn diweddariad ar unrhyw ddatblygiadau perthnasol.

**20.75 NEWYDDION DIWEDDARAF UNDEB Y MYFYRWYR**

A. Nododd y Cyngor yr adroddiadau a gyflwynwyd gan Undeb y Myfyrwyr a chan UMCB o dan eitem 5 ar yr agenda.

B. Cyflwynodd Mr Williams a'r Athro Turnbull adroddiad wedi ei ddiweddaru ar *Brofiad Myfyrwyr yn ystod Covid-19.* Nodwyd y pwyntiau canlynol yn benodol:

- Roedd yr adroddiad wedi ei ddiweddaru yn gyfle i dynnu sylw at y camau y gofynnwyd amdanynt gan Undeb y Myfyrwyr ochr yn ochr â'r canlyniadau y cytunwyd arnynt gyda'r brifysgol, ynghyd â thystiolaeth o'r cydweithio effeithiol sydd wedi digwydd trwy gydol y flwyddyn academaidd;

- Mae cyflwyno'r Bwletin Myfyrwyr yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21 wedi bod yn llwyddiannus, ac mae'n rhoi cyfrwng i'r brifysgol ddiweddaru myfyrwyr yn rheolaidd ar eitemau allweddol;

- Mae cyfres o weminarau a sesiynau holi ac ateb a gynhaliwyd fin nos gyda'r Dirprwy i'r Is-ganghellor a'r Dirprwy Is-gangellorion trwy gydol y flwyddyn wedi bod yn boblogaidd iawn ymhlith y myfyrwyr.
- Mae iechyd meddwl myfyrwyr wedi bod yn flaenoriaeth dros y flwyddyn a gwnaed buddsoddiad pellach mewn gwasanaethau cefnogi i fyfyrwyr yn ystod y pandemig. Yn ogystal, bydd datblygu strategaeth iechyd a lles ledled y brifysgol yn darparu gwytnwch pellach yn y maes hwn, a chaiff y Cyngor ei ddiweddaru ar y strategaeth hon yn ei gyfarfod nesaf;

B. Diolchodd y cadeirydd, ar ran y Cyngor, i Mr Williams a Mr Evans am eu hadroddiadau, am eu gwaith caled yn ystod y semester ac am eu hymwneud cadarnhaol parhaus â'r brifysgol. Cydnabuwyd yn ddiolchgar barodrwydd y tîm Sabothol cyfan i ymwneud â'r brifysgol yn ystod cyfnod heriol a digynsail.

D. **Nododd** y Cyngor ddogfen Strategaeth Undeb y Myfyrwyr a oedd wedi ei chynnwys yn y papurau er gwybodaeth.

## 20.76 ADRODDIAD ARIANNOL

A. Cyflwynodd Mr Eastwood ganlyniad y rhagolwg diwygiedig hyd 31 Gorffennaf 2021 a nododd bod sefyllfa ariannol y brifysgol wedi gwella o gymharu â'r rhagolwg a gyflwynwyd i HEFCW ym mis Rhagfyr 2020. Nodwyd y rhagwelwyd y byddai'r gwarged gweithredol yn gwella o £7.6m i warged o £0.4m a ysgogwyd yn bennaf gan y cynnydd mewn grantiau gan HEFCW, er yr adroddwyd bod llawer ohonynt yn gyfyngedig ac yn golygu bod rhaid i'r brifysgol fynd i wariant cyfalaf. Mae'r grantiau hyn wedi arwain at gynnydd net mewn arian parod, o'i gymharu â rhagolwg mis Rhagfyr, o £3.6m.

B. Croesawodd aelodau'r cyngor yr ychwanegiad o adroddiad ariannol rheolaidd. Cadarnhawyd, ar ôl ateb cwestiynau, na fyddai'r brifysgol yn cael unrhyw anhawster i fodloni'r cyfamodau banc yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Rhagwelwyd yn benodol, yn amodol ar drafodaeth bellach gydag EIB, y byddai cwblhau'r project sy'n gysylltiedig â'r benthyciad yn cael ei gadarnhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

C. Diolchodd y cadeirydd i Mr Eastwood am ei bapur, a **nododd** y Cyngor ei gynnwys.

## 20.77 YMGYNGHORIAD AR GYNLLUN PENSIWN Y PRIFYSGOLION (USS)

A. Adroddodd Mr Eastwood, yn dilyn penderfyniad yr USS i gynnal prisiad ar 31 Mawrth 2020, bod yr ymddiriedolwyr wedi cyhoeddi diweddariad ar brisiad 2020 gyda dyddiad 3 Mawrth 2021 ynghyd â nifer helaeth o ddogfennau ategol. O ganlyniad i hyn, mae Universities UK (UUK) ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad ar ganlyniad dangosol prisiad Mawrth 2020, yn seiliedig ar nifer o ddogfennau, sy'n gofyn i'r brifysgol ateb nifer o gwestiynau erbyn 24 Mai 2021. Nodwyd bod ymgynghori ag aelodau staff a

chynrychiolwyr yr undebau llafur yn hollbwysig a bwriedir gwneud hyn yn ystod mis Mai.

Nodwyd bod y papur a gyflwynwyd i'r Cyngor yn darparu crynodeb o'r prisiad cychwynnol a'r ddogfennaeth ymgynghori, ac roedd hefyd yn cynnwys yr ymateb ysgrifenedig i'r ymgynghoriad gan yr Universities College Union (UCU).

B. Nododd Syr Paul Lambert, fel cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth y Cyngor, fod y dull a amlinellwyd gan Mr Eastwood wedi ei gefnogi gan drafodaethau helaeth mewn cyfarfod anghyffredin o'r pwyllgor hwnnw.

C. Yn dilyn trafodaeth, **nododd** y Cyngor yr ymateb drafft, a fyddai'n cael ei ddiwygio yn dilyn ymgynghoriad. **Cytunwyd** y byddai cadeirydd y Cyngor, ynghyd â chadeiryddion is-bwyllgorau'r Cyngor, yn cymeradwyo ymateb terfynol maes o law. Cadarnhaodd y cadeirydd y caiff diweddariad pellach ei ddarparu i'r Cyngor ynglŷn â'r canlyniad.

**20.78 MATERION YSTADAU**

A. Ystyriodd y Cyngor y diweddariadau a roddwyd yn y log gweithredu mewn perthynas â gwerthu eiddo. Yn benodol tynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo a Champws sylw'r Cyngor at y materion a ganlyn:

[1] Ynys Faelog: Dywedwyd wrth y Cyngor fod gwerthiant Ynys Faelog wedi methu yn anffodus oherwydd newid i amgylchiadau'r prynwr arfaethedig. Bydd y Gwasanaethau Ystadau a Champws yn awr yn mynd ati i ailbrisio ac ail-farchnata'r eiddo.

[2] Mae trafodaethau yn parhau gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn â throsglwyddo Canolfan Brailsford (Ysbyty Enfys) yn ôl erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd nesaf. Cytunwyd ar gwmpas y gwaith ar gyfer yr ymarfer digomisiynu, ac ar hyn o bryd mae'r bwrdd iechyd wedi rhoi'r gwaith i dendr.

[3] Mae'r gwaith o baratoi'r Strategaeth Ystadau ddrafft yn mynd rhagddo. Mae'r Grŵp Uwch Reolwyr wedi cael eu cyflwyno i'r weledigaeth, ac mae digwyddiad ymgynghori â staff yn awr yn y dyddiadur at ddiwedd mis Mai, gydag ymgynghoriad â myfyrwyr yn yr arfaeth ym mis Mehefin ac mae ymgynghoriad ehangach â rhanddeiliaid allanol hefyd yn cael ei drefnu. Caiff diweddariad pellach ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

[4] Nodwyd, fel rhan o'r cynlluniau i ailddatblygu safle Ffordd Deiniol, y cafwyd trafodaethau cadarnhaol gyda'r Coleg Gwyddorau Amgylcheddol a Pheirianneg. Mae'r project yn dod yn ei flaen yn dda ond ar hyn o bryd mae mewn cyfnod tawel sy'n ymwneud â phenodi tîm dylunio. Nodwyd bod Tŵr Alun Roberts wedi ei gynnwys yng nghwmpas y gwaith ac y bwriedir ei ddymchwel fel rhan o gynllun ehangach y project.

## 20.79 DATGANIAD CANLYNIADAU GRADD

A. Derbyniodd y Cyngor ddatganiad canlyniadau gradd 2018/19 a nodwyd nad oedd rhaid cyhoeddi'r datganiad yng Nghymru ar hyn o bryd, ond mae HEFCW yn disgwyl i sefydliadau addysg uwch Cymru wneud hynny.

Adroddodd yr Athro Callow bod Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru (2020) a gyhoeddir gan HEFCW, yn rhoi cyfrifoldeb ar y Cyngor i benderfynu a yw'r brifysgol yn cyflawni'r safonau a nodir yn y fframwaith. Yn ogystal, ac ar ôl darganfod bod y safonau'n cael eu bodloni, mae'n ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo'r datganiadau ansawdd blynyddol. Nodwyd mai dyma'r rhai sy'n berthnasol i sicrhau ansawdd:

- Mae'r corff llywodraethu wedi derbyn adroddiad sy'n cymryd yr adolygiad allanol sicrhau ansawdd i ystyriaeth, ac mae cynllun gweithredu wedi ei lunio a'i weithredu fel bo'n briodol, mewn partneriaeth â'r myfyrwyr;

- Hyd eithaf ein gwybodaeth, mae'r methodolegau a ddefnyddiwyd fel sail i wella profiad academaidd y myfyrwyr a chanlyniadau myfyrwyr yn gadarn a phriodol.

- I ddarparwyr gyda phwerau dyfarnu graddau: Mae safonau'r cymwysterau rydym yn gyfrifol amdanynt wedi eu gosod a'u cynnal yn briodol; ac

- Mae gan y corff llywodraethu oruchwyliaeth effeithiol ar ganlyniadau gradd ac uniondeb academaidd.

Nodwyd, yn adroddiad ansawdd blynyddol 2019/20 a'r datganiad cysylltiedig (a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 27 Tachwedd 2020), y cyfeiriwyd at ddatganiad canlyniadau gradd 2018/19 y brifysgol, ac adolygiad sydd ar y gweill o algorithm graddau'r brifysgol.

B. Yn dilyn trafodaeth, **cymeradwyodd** y Cyngor Ddatganiad Canlyniadau Gradd 2018/19.

C. Yn ogystal, **nododd** y Cyngor adroddiad dosbarthu graddau 2019/20 a oedd yn cynnwys meincnodi'r sector, casgliadau o'r adolygiad algorithm gradd a manylion am effaith y rheoleiddiad *Force Majeure*.

## 20.80 ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL 2019-20 / ADRODDIAD AM Y BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU

A. Cyflwynodd yr Athro Nicky Callow a Mrs Tracy Hibbert Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2019-20 a nododd ddata monitro cydraddoldeb yr holl staff a gyflogwyd yn y flwyddyn academaidd 2019-2020 gan gynnwys cymariaethau â'r sector addysg uwch a thueddiadau fel sy'n ofynnol gan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus Deddf Cydraddoldeb 2010.

B. **Cymeradwyodd** y Cyngor Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2019-20.

B. Derbyniwyd a **nododd** y Cyngor yr adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau. Yn benodol, nodwyd bod y gofynion ar gyfer adrodd ar rywedd wedi dod i rym ar 6 Ebrill 2017, ond nid ydynt yn berthnasol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Yn sgil trafodaethau'r Gweithgor Cyflogau Cyfartal ac fel y cytunwyd gyda'r undebau llafur fel rhan o'r grŵp hwnnw, mae'r brifysgol yn cyhoeddi ei hadroddiad am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau o'i gwirfodd. Nododd y Cyngor bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y brifysgol ar hyn o bryd yn 13.9% o ran cymedr a 7.2% o ran canolrif. Mae data dros dro'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a gyhoeddwyd ar gyfer 2020 yn dangos bod bwlch canolrifol y Deyrnas Unedig yn 15.5% gan olygu bod y bwlch yn is yn y brifysgol am yr un cyfnod. Ond er bod y bwlch canolrif yn y brifysgol yn sylweddol is na'r bwlch cenedlaethol dros dro, mae angen gwneud gwaith pellach i leihau/dileu'r bwlch. Yn ogystal, nodwyd bod y brifysgol hefyd, o'i gwirfodd, yn cyhoeddi'r archwiliad a gynhaliwyd o'r bwlch cyflog rhwng gwahanol grwpiau ethnig, ac mae'r data'n dangos bod cyflog cymedrig staff o grwpiau ethnig lleiafrifol 10.6% yn uwch na staff gwyn ac yn yr un modd bod cyflog canolrifol staff o grwpiau ethnig lleiafrifol 34.2% yn uwch.

**20.81 DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL**

A. Nododd y Cyngor y papur a oedd yn amlinellu'r tueddiadau cyfredol mewn perthynas â chyllid ymchwil. Yn ogystal, diweddarodd yr Athro Spencer y Cyngor ar y penderfyniad diweddar gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i leihau'r cyllid Cymorth Datblygu Swyddogol (ODA) o £120m yn ystod y flwyddyn. Adroddwyd bod y cyllid hwn wedi ei ddosbarthu gan bron pob un o'r cynghorau cyllido ac y byddai gan bob grant o'r fath bartner neu fuddiolwr tramor. Ar hyn o bryd mae'r brifysgol yn ymwybodol o 8 grant yr effeithir arnynt, ac mae'r arbedion yn ystod y flwyddyn y gofynnir amdanynt yn amrywio o 50% i 20%. Adroddodd yr Athro Spencer fod pedwar o'r projectau i fod i orffen yn ystod y flwyddyn academaidd, a bod pedwar yn cael eu harwain gan sefydliadau addysg uwch eraill yn y Deyrnas Unedig. Yn dilyn y cyhoeddiad, roedd gwahanol gyllidwyr yn defnyddio gwahanol fethodolegau ac roedd ganddynt ddyddiadau cau gwahanol i gyflwyno cynlluniau diwygiedig, ond ni ragwelir unrhyw newidiadau staffio ar hyn o bryd, ond bydd gorbenion yn cael eu heffeithio, ac mae'r brifysgol wedi gallu lliniaru effaith y cyhoeddiad trwy ddefnyddio'r cronfeydd cymorth Covid-19 sydd ar gael ynghyd ag ailstrwythuro rhywfaint o gynlluniau ymchwil. Dywedwyd wrth y Cyngor nad oedd yn glir eto a fyddai'r un lefel o doriadau yn digwydd yn y flwyddyn ariannol nesaf.

B. Rhoddodd y Prif Swyddog Marchnata ddiweddariad i'r Cyngor ar recriwtio myfyrwyr. Derbyniwyd diweddariad ar recriwtio myfyrwyr llawn-amser a sut mae hyn yn cymharu â lefelau recriwtio myfyrwyr ar gyfer blynyddoedd i ddod a ragdybir yn rhagolygon ariannol y brifysgol, a diweddariad ar gyfanswm cofrestriadau myfyrwyr (myfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n dychwelyd) a'r effaith gysylltiedig ar incwm ffioedd dysgu. Yn benodol, nodwyd bod ceisiadau a chynigion a wnaed yn sylweddol uwch na'r un adeg y llynedd (+19% a +21%, yn y drefn honno). Mae'r cynnydd dros ddwy flynedd hefyd yn sylweddol. Adroddodd Mrs Westwood bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod o nodi a chanolbwyntio ar enillion cyflym er mwyn sicrhau canlyniadau cynnar; adolygiad manwl o weithrediadau ac ailstrwythuro i ddarparu sylfaen ar gyfer llwyddiant; symudiad tuag at ddull strategol, cynlluniedig a rhagweithiol o farchnata a recriwtio myfyrwyr mewn modd sy'n llwyddo. Nododd y Cyngor bod yr adroddiad yn

canolbwyntio ar y Deyrnas Unedig yn bennaf, oedd yn ddewis bwriadol yn gynnar yn y broses oherwydd bod Covid wedi tarfu'n llwyr ar recriwtio rhyngwladol ac oherwydd bod recriwtio rhyngwladol wedi perfformio'n dda yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac felly roedd y materion allweddol oedd angen sylw yn wahanol.

Croesawodd y Cyngor y newyddion cadarnhaol mewn perthynas â recriwtio myfyrwyr a nododd y gwaith sy'n rhaid ei wneud i drosi'r niferoedd yn fyfyrwyr cofrestredig ym mis Medi 2021.

**20.82 ADRODDIAD O'R SENEDD**

Derbyniwyd adroddiad o gyfarfod y Senedd a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2021 (ynghlwm fel Atodiad II i gopi swyddogol y cofnodion hyn).

**20.83 PWYLLGOR CYLLID A STRATEGAETH**

A. **Cymeradwywyd** yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth a gynhaliwyd 21 Ebrill 2021 (ynghlwm fel Atodiad III i gopi swyddogol y cofnodion hyn).

B. Yn ogystal, **cymeradwyodd** y Cyngor yr argymhelliad gan y pwyllgor sy'n ymwneud ag Ysgol Iechyd a Meddygol Gogledd Cymru, bod gwariant o £0.5m yn y flwyddyn yn cael ei ddyrannu i'r project.

**20.84 PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH**

**Cymeradwywyd** yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd 10 Mawrth 2021 (ynghlwm fel Atodiad IV i gopi swyddogol y cofnodion).

**20.85 PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG**

A. Cymeradwywyd yr adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2021 (ynghlwm fel Atodiad V i gopi swyddogol y cofnodion).

B. Derbyniodd y Cyngor adroddiad ar y risgiau corfforaethol gweddilliol eithafol ac uchel a nododd bod 13 o'r 21 risg sydd ar Gofrestr Risg Corfforaethol y brifysgol yn cael eu dosbarthu'n weddillol eithafol neu uchel, h.y., o gymhwyso dulliau rheoli'r brifysgol, y rhai a fyddai'n cael effaith fawr neu gritigol, ac sy'n debygol neu bron yn sicr o ddwyn ffrwyth yn y 1-3 blynedd nesaf. Croesawyd yr adroddiad, a **chadarnhawyd** y byddai ymarfer manwl seiliedig ar rai o'r risgiau gyda sgorau uwch yn cael ei gynnal naill ai erbyn cyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf neu fis Medi.

**20.86 PWYLLGOR ENWEBIADAU A LLYWODRAETHU**

Cymeradwywyd yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd 16 Ebrill 2021 (ynghlwm fel Atodiad VI i gopi swyddogol y cofnodion).

## 20.87 PWYLLGOR MATERION Y GYMRAEG

Cymeradwywyd yr adroddiad ar gyfarfod Pwyllgor Materion y Gymraeg a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2021 (ynghlwm fel Atodiad VII i gopi swyddogol y cofnodion).

## 20.88 ADRODDIAD ADNODDAU DYNOL

A. Derbyniodd y Cyngor adroddiad ar faterion Adnoddau Dynol a ***nododd*** y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chynllun Buddion Bangor a Dyfarniadau Cyflog Cenedlaethol 2021/22.

B. Derbyniwyd, er gwybodaeth, restr o benodiadau uwch diweddar.

C. ***Cymeradwyodd*** y Cyngor y cais i ddyfarnu statws emeritws i'r canlynol:

- Yr Athro Alan Shore

## 20.89 SELIO

**Cadarnhaodd** y Cyngor selio'r dogfennau a restrwyd yn Agendum 20.

## 20.90 FFARWELIO

Nododd Cadeirydd y Cyngor mai hwn oedd cyfarfod olaf Mr Williams fel Llywydd Undeb y Myfyrwyr a Mr Evans fel Llywydd UMCB. Ar ran y Cyngor cyfan, diolchodd y cadeirydd am eu parodrwydd i weithio gyda'r Cyngor a'r brifysgol a'u harweinyddiaeth a dymunodd yn dda i'r ddau ohonynt at y dyfodol.